

## Y CYFIEITHYDD CYMRAEG

*Darllenwyd yng Nghinio Dathlu 40ain Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd, 21/10/16*

Mae Bruce wrth dy benelin neu ar agor ar dy sgrîn;  
ti'n cyfieithu geiriau gwleidydd sy'n gwag-siarad trwy ei din,  
ac fel cofnodion pwyllgor, mae'n dy wneud yn berson blin.

Mae'r cof cyfieithu eto wedi crashio; mae 'na nam  
ar Cysill; ti'n cael sgwigyls er nad wyt ti'n gwybod pam;  
am "phase" be fyddai orau, ai rhoi "cyfnod" ynteu "cam"?

Mae'r Esgob William Morgan ar y wal yn dy le chwech  
mewn ffrâm yn ysbrydoliaeth os 'di'r pnawn yn mynd fel rhech  
a'r adroddiad hir blynyddol yna'n bygwth bod yn drech.

Mae cyfoeth gramadegau y penceirddiaid yn dy ben;  
mi wyddost sut i redeg pob un berf dan haul y nen  
a'r holl genhedloedd enwau i gyd, ond yna – nefi wen –

mae teipo ar yr arwydd a gyfieithaist dro yn ôl.  
Ar Twitter mae 'na bobol sydd yn deall *bugger all*  
yn dy feio *di* am hynny, nid y cyw cysodydd ffôl.

Mae'r jargon fesul blwyddyn, fesul mis yn mynd yn waeth;  
i wafflo'r byd cyhoeddus rwyt ti'n teimlo braidd yn gaeth –  
y gallu i sgwennu Saesneg call, i'r brwyn a'r gwellt yr aeth.

Mae'r boen o hyperlincio i ryw ddogfen nad yw'n bod  
bron cymaint job â cheisio gair o ddiolch neu o glod.  
Mae cwrdd â dedleins gwirion hyd dy fywyd yn rhyw nod.

Ti'n troi a throsi yn dy gwsg; yn breuddwydio wrth gael *nap*  
am byrth Canolfan Bedwyr, am eu diweddaraf *app*;  
am waith y Comisiynydd Iaith a'i grantiau – o, go drap.

Fesul mil ti'n treulio'th ddyddiau, mil o eiriau ar y tro,  
rhai o'r rheini heb gyd-destun, dim ond lein a dyna fo.  
Mae Google a'i *dranslator* yn dy yrru o dy go'.

Mewn deugain mlynedd arall bydd mashîn yn gwneud dy waith –  
mae hynny gan ragdybio nad un farw fydd yr iaith.  
Ond tra bo bŵths a hedffons, tra Bruce a Daf, mae'n ffaith

os oes 'na rywun, rywle yn ei chadw'n fyw ac iach,  
yn sicrhau bod hon i'w gweld a'i chlywed, er y strach,  
mae'r rheini yma heddiw. Codaf ichi wydryn bach.

Rhys Iorwerth